# Egwyddorion cyffredinol sy'n sylfaen i gyflwyno asesiadau CBAC



www.freeimages.co.uk

## Cynnwys

**Rhagarweiniad** .......... 2

**Adran 1:** Rolau a Chyfrifoldebau .......... 3

**Adran 2:** Paratoi papurau cwestiynau, tasgau a chynlluniau marcio .......... 7

**Adran 3:** Safoni marcio: asesu allanol .......... 12

**Adran 4:** Safoni marcio a chymedroli: Asesu mewnol neu asesu di-arholiad .......... 19

**Adran 5:** Dyfarnu, cadw archif a chyhoeddi canlyniadau .......... 24

## Rhagarweiniad

Mae CBAC yn gorff dyfarnu blaenllaw, sy'n cynnig amrywiaeth o gymwysterau yn bennaf i ganolfannau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Rheoleiddir y cymwysterau a gynigir gan CBAC i'r holl ganolfannau yn y Deyrnas Unedig gan y tri rheoleiddiwr canlynol; CCEA, Ofqual a Cymwysterau Cymru.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys egwyddorion cyffredinol y mae CBAC yn seilio ei bolisïau a'i weithdrefnau cyflwyno asesiadau arno, gan ganolbwyntio ar gynhyrchu papurau cwestiynau, marcio/cymedroli asesiadau, dyfarnu a chyhoeddi canlyniadau.

Lluniwyd y ddogfen i ddangos i'r holl randdeiliaid sut rydym yn hyrwyddo ansawdd, cysondeb, cywirdeb a thegwch wrth asesu a dyfarnu ein cymwysterau.

Mae CBAC fel corff dyfarnu rheoledig yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag Amodau Cydnabyddiaeth bob rheoleiddiwr, Amodau Lefel Cymhwyster a Phwnc ac unrhyw ddogfennau statudol neu ganllawiau ychwanegol a gyhoeddwyd gan ei reoleiddwyr.

## Adran 1: Rolau a Chyfrifoldebau

**Mae'r adran hon yn nodi rolau a chyfrifoldebau gwahanol y mae CBAC wedi'u rhoi ar waith i sicrhau ei fod yn rheoli ac yn cynnal ansawdd a safonau'r cymwysterau sy'n cael eu cynnig.**

### *Llywodraethu*

1.1 Tîm arwain gweithredol a Bwrdd Cyfarwyddwyr CBAC sy'n gyfrifol am roi gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal ym mhob pwnc a arholir o flwyddyn i flwyddyn.

1.2 Staff a phenodedigion CBAC sy'n cyflawni'r cyfrifoldebau hyn, fel y disgrifir isod. Cyflawnir y swyddogaethau a ddisgrifir ar gyfer manyleb pob cymhwyster. Gall un person gyflawni mwy nag un rôl ar yr amod nad yw'r rôl yn achosi gwrthdaro buddiannau, er enghraifft rhwng rôl adolygwr ac archwiliwr. Mae CBAC yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth priodol i sicrhau bod ei bersonél yn gallu cyflawni'r swyddogaethau a nodir yn y ddogfen hon, monitro a gwerthuso ein darpariaeth i wneud yn siŵr ein bod yn effeithiol ac yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas.

1.3 Mae CBAC yn penodi un person i fod yn atebol yn uniongyrchol i'n Bwrdd Cyfarwyddwyr er mwyn sicrhau ansawdd a safonau ein cymwysterau (hynny yw, y swyddog cyfrifol). Trwy wneud hyn, mae CBAC yn gwarantu i'r rheoleiddwyr ei fod yn sicrhau:

- i) y cymerir pob cam angenrheidiol i gynnal cysondeb safonau ym mhob cymhwyster o flwyddyn i flwyddyn, ar draws gwahanol fanylebau ac â sefydliadau dyfarnu eraill, lle bo hynny'n briodol
- ii) cydymffurfiaeth ag amodau'r rheoleiddwyr
- iii) ein cyfranogiad mewn gwaith ar gymaroldeb a gweithgareddau monitro, a bod y newidiadau sy'n angenrheidiol ar sail y gwaith hwn yn cael eu gwneud.

### *Staff CBAC*

1.4 Mae staff CBAC yn rheoli camau amrywiol o'r broses arholi er mwyn sicrhau:

- i) eu bod yn cael eu cynnal yn unol â pholisïau a gweithdrefnau CBAC
- ii) bod penodedigion a phwyllgorau yn cael y gefnogaeth weinyddol a thechnegol angenrheidiol, a chefnogaeth gan arbenigwyr pwnc
- iii) bod uwch reolwyr CBAC, gan gynnwys y swyddog cyfrifol, yn cael gwybod am faterion neu bryderon sy'n codi yn ystod y broses.

### *Cadeirydd yr arholwyr*

1.5 Mae cadeirydd yr arholwyr yn atebol i CBAC am gynnal safonau ar draws y gwahanol fanylebau mewn pwnc o fewn cymhwyster, ac o flwyddyn i flwyddyn. Rhaid i gadeirydd yr arholwyr:

i) gadeirio'r cyfarfodydd pwyllgor gwerthuso papurau arholiad, lle bo hynny'n bosibl, ar gyfer pob manyleb yn y pwnc yn y math penodol hwnnw o gymhwyster

ii) monitro safonau'r uwch arholwyr a chynghori ynglŷn â'u penodi, eu hyfforddi a'u hailbenodi

iii) arwain y broses ddyfarnu ac argymell ffiniau graddau ar gyfer pob manyleb i CBAC

iv) cyflwyno, yn ôl y cyfarwyddyd gan CBAC, adroddiad cyffredinol ar ddyfarnu'r cymhwyster.

### *Uwch Arholwr*

1.6 Yr uwch arholwr ar gyfer pob uned/cydran sy'n gyfrifol am osod y papur cwestiynau / tasgau ac yn y rhan fwyaf o achosion, safoni'r marcio. Rhaid i'r uwch arholwr:

i) osod y cwestiynau a'r cynlluniau marcio ar gyfer y papur cwestiynau neu gymeradwyo'r rhai a osodir gan arholwyr eraill

ii) ceisio sicrhau safonau cyson ar draws y cwestiynau dewisol yn y papur, a chynorthwyo'r cadeirydd i geisio sicrhau cysondeb mewn safonau ar draws papurau dewisol

iii) monitro safonau marcio holl arholwyr y papur, gan gynnwys, os oes angen, unrhyw uwch arholwyr cynorthwyol ac arweinwyr tîm, a gweithredu'n briodol i sicrhau cywirdeb a chysondeb

iv) cynghori, os oes angen, ynglŷn â phenodi, hyfforddi ac ailbenodi uwch arholwyr cynorthwyol, arweinwyr tîm ac arholwyr ar gyfer y papurau cwestiynau

v) mynychu'r cyfarfod dyfarnu, cynghori aelodau ynghylch gweithrediad y papur cwestiynau ac argymell ystodau rhagarweiniol y marciau ar gyfer ffiniau graddau yn ôl barn i'r papur cwestiynau

vi) cyflwyno adroddiad gwerthuso ar berfformiad y papur cwestiynau/tasg.

### *Adolygwr*

1.7 Rhaid i'r adolygwr:

i) roi sylwadau ysgrifenedig ar ddrafftiau cynnar papurau cwestiynau/tasgau a chynlluniau marcio dros dro

ii) gweithio drwy'r papurau cwestiynau, fel y bo'n briodol.

Gall CBAC benodi mwy nag un adolygwr i bob arholiad

### *Archwiliwr*

1.8 Yr archwiliwr sy’n gyfrifol am:

i) wirio drafft terfynol yr holl bapurau cwestiynau/tasgau heb gyfeirio at y cynlluniau marcio, i sicrhau y gellir ateb y cwestiynau yn yr amser a ganiateir ac nad oes unrhyw wallau na bylchau

ii) gweithio drwy’r papurau cwestiynau, fel y bo'n briodol

iii) gwirio’r cynllun marcio i sicrhau bod y marciau a roddir yn cyfateb yn union i’r rhai sydd ar y papur cwestiynau

iv) paratoi adroddiad ar gyfer aelod o staff CBAC sydd wedi'i ddynodi.

### *Arholwyr*

1.9 Mae arholwyr yn gyfrifol am farcio gwaith yr ymgeiswyr yn unol â’r cynllun marcio a’r gweithdrefnau marcio y cytunwyd arnynt.

### *Marcwyr cyffredinol*

1.10 Mae marcwyr cyffredinol yn gyfrifol am farcio gwaith ymgeiswyr lle nad oes lefel uchel o arbenigedd pwnc yn angenrheidiol i weithredu’r cynllun marcio. Rhaid iddynt farcio’r gwaith hwn yn unol â’r cynllun marcio a’r gweithdrefnau marcio y cytunwyd arnynt.

### *Uwch gymedrolwr*

1.11 Mae’r uwch gymedrolwr ar gyfer pob uned/cydran a asesir yn fewnol yn gyfrifol am sicrhau bod safonau’r uned/cydran yn cael eu cynnal, a’u bod yn gyson â meini prawf asesu a manyleb yr uned. Rhaid i’r uwch gymedrolwr:

i) gasglu gwaith enghreifftiol, wedi’i anodi i ddangos sut mae cymhwyso’r meini prawf asesu

ii) sicrhau bod y cymedrolwyr yn bodloni’r gofynion safoni a gweithredu os bydd unrhyw gymedrolwr yn methu â chynnal y safon angenrheidiol

iii) sicrhau bod pob cymedrolwr yn defnyddio’r un meini prawf asesu ag y mae CBAC yn eu darparu ar gyfer yr aseswyr mewnol, a’u bod yn eu dehongli a’u cymhwyso’n gywir

iv) monitro safonau unrhyw uwch gymedrolwyr cynorthwyol, arweinwyr tîm a chymedrolwyr a chynghori ynglŷn â’u penodi, eu hyfforddi a’u hailbenodi

v) sicrhau y gwneir gwaith paratoadol, dilynol a chywiro priodol gyda chanolfannau

vi) mynychu’r cyfarfod dyfarnu, cynghori aelodau ynghylch gweithrediad y gydran ac, fel y bo'n briodol, argymell ystodau rhagarweiniol y marciau ar gyfer y ffiniau graddau yn ôl barn

vii) cyflwyno adroddiad gwerthuso i’r cadeirydd ar faterion yn ymwneud â pherfformiad y gydran.

### *Cymedrolwyr*

1.12 Mae cymedrolwyr yn gyfrifol am gymedroli asesiadau'r canolfannau o waith yr ymgeiswyr yn unol â'r meini prawf asesu y cytunwyd arnynt a gweithdrefnau CBAC.

### *Uwch arholwyr cynorthwyol, uwch gymedrolwyr cynorthwyol ac arweinwyr tîm*

1.13 Rhaid penodi uwch arholwyr cynorthwyol ac uwch gymedrolwyr cynorthwyol, yn ôl nifer yr ymgeiswyr. Mae'r uwch arholwyr cynorthwyol yn gyfrifol am grŵp o arholwyr neu gymedrolwyr hŷn lle byddai cwmpas y rheolaeth fel arall yn rhy eang i'r uwch arholwyr neu'r uwch gymedrolwyr. Os defnyddir strwythur tîm, rhaid penodi arweinwyr tîm i oruchwylio tîm o arholwyr neu gymedrolwyr. Rhaid iddynt weithredu fel mentoriaid i'r rhai sydd newydd gael eu penodi, gwirio a llywio gwaith yr arholwyr a'r cymedrolwyr y mae ganddynt gyfrifoldeb drostynt a chynghori ynglŷn â'r angen i addasu marciau'r arholwyr neu argymhellion y cymedrolwyr.

## Adran 2: Paratoi papurau cwestiynau, tasgau a chynlluniau marcio

**Mae’r adran hon yn disgrifio beth y mae'n rhaid i CBAC ei wneud er mwyn cynhyrchu papurau cwestiynau, tasgau a chanllawiau marcio o ansawdd uchel. Mae’n ymdrin â’r canlynol:**

***sicrhau bod gwiriadau wedi eu sefydlu ar gyfer ansawdd**

***sicrhau bod y papurau cwestiynau yn ymdrin â’r cynnwys angenrheidiol**

***defnyddio iaith eglur yn y papurau cwestiynau a thasgau**

***defnyddio iaith eglur yn y cyfarwyddiadau marcio**

### *Rhannu cyfrifoldebau*

2.1 Mae'r personél sy'n ymwneud â gosod papurau cwestiynau, tasgau a chynlluniau marcio yn cynnwys cadeirydd yr arholwyr, uwch arholw(y)r, archwiliwr, adolygw(y)r a staff CBAC. Disgrifir eu cyfrifoldebau yn Adran 1.

2.2 Mae'r uwch arholw(y)r yn gyfrifol am:

- i) ddangos sut y mae cynnwys a meini prawf asesu ac amcanion y fanyleb wedi eu bodloni yn y papur cwestiynau neu’r dasg; gall hyn fod ar ffurf grid
- ii) sicrhau bod y ffordd y rhoddir prawf ar y cynnwys yn y cwestiynau yn glir ac yn addas i’r pwrpas
- iii) sicrhau, ble gall ymgeiswyr ddewis rhwng cwestiynau, bod modd dangos bod unrhyw gyfuniad o gwestiynau a ganiateir yn addas ar gyfer ymdrin â chydbwysedd tebyg o ran cynnwys a meini prawf asesu
- iv) rhoi ystyriaeth i adborth o sesiynau asesu blaenorol, gan gynnwys argymhellion o adroddiadau monitro perthnasol
- v) sicrhau bod drafftiau terfynol y papurau cwestiynau / tasgau yn bodloni cynnwys ac amcanion asesu’r fanyleb
- vi) sicrhau ansawdd y deunyddiau terfynol a llofnodi i gadarnhau hynny

Rhaid i’r amserlen ar gyfer drafftio’r papurau cwestiynau, tasgau a’r cynlluniau marcio dros dro ganiatáu ar gyfer yr uchod i gyd.

### *Paratoi asesiadau gan gynnwys cynlluniau marcio dros dro*

2.3 Rhaid i bapurau cwestiynau / tasgau a chynlluniau marcio dros dro gael eu cynhyrchu ar yr un pryd. Bydd CBAC yn sicrhau bod ganddo gynlluniau wrth gefn sy’n ein caniatáu i ymateb yn gyflym os oes unrhyw reswm i boeni ynghylch toriad cyfrinachedd papur cwestiynau cyn arholiad.

### *Asesu cyfathrebu ysgrifenedig*

2.4 Lle mae meini prawf y rheoleiddwyr yn ei gwneud yn ofynnol i gyfran o'r marciau fod ar gael am fanwl gywirdeb sillafu, atalnodi a gramadeg ymgeiswyr, a/neu'r defnydd o dechnoleg arbenigol, rhaid dangos hyn yn eglur yn y cynllun marcio.

### *Adolygu’r papurau cwestiynau, tasgau a’r cynlluniau marcio dros dro*

2.5 Rhaid i’r adolygw(y)r:

i) archwilio drafftiau cychwynnol y papurau cwestiynau / tasgau a’r cynlluniau marcio

ii) gwirio bod natur ac amrywiaeth yr atebion a fynnir gan y cynllun marcio yn briodol

iii) rhoi sylwadau ar gwestiynau ac atebion unigol ac ar y papur(au) cwestiynau drafft yn gyffredinol.

Dylid rhoi ystyriaeth i adborth o sesiynau arholiadau blaenorol, gan gynnwys argymhellion o adroddiadau monitro perthnasol os ydynt ar gael.

2.6 Rhaid addasu drafftiau cychwynnol y papurau cwestiynau / tasgau a’r cynlluniau marcio yng ngoleuni’r sylwadau a’u cyflwyno, ynghyd â sylwadau gwreiddiol yr adolygw(y)r, i'r aelod dynodedig o staff CBAC i'w hystyried gan y pwyllgor gwerthuso papurau cwestiynau.

### *Gwerthuso asesiadau a chynlluniau marcio*

2.7 Rhaid cynnull pwyllgor, dan gadeiryddiaeth cadeirydd yr arholwyr fel arfer, i werthuso’r papurau cwestiynau/tasgau. Rhaid i’r uwch arholwr sy’n gyfrifol am yr unedau/cydrannau penodol fod yn bresennol. Yn ogystal, dylai’r pwyllgor gwerthuso papurau cwestiynau gynnwys yr adolygw(y)r a gall hefyd gynnwys aelodau o gymuned y pwnc sydd â phrofiad diweddar a pherthnasol o ran addysgu neu arholi. Os ceir mwy nag un fanyleb mewn pwnc yn rhan o gymhwyster arbennig, dylai aelodaeth o’r pwyllgor orgyffwrdd (cadeirydd yr arholwyr ac o leiaf un aelod arall). Ble cynigir papur cwestiynau / tasgau drwy gyfrwng y Gymraeg, fel arfer dylai fod gan o leiaf un aelod o’r pwyllgor yr arbenigedd priodol i gynghori ar faterion cyfrwng Cymraeg.

2.8 Rhaid i’r pwyllgor gael ei wasanaethu gan aelod o staff CBAC a fydd yn darparu cefnogaeth ac arweiniad gweinyddol a thechnegol, ac yn sicrhau y glynir at bolisïau CBAC ac yn cydymffurfio â rheoliadau.

2.9 Pan gyflwynir drafftiau’r papurau cwestiynau / tasgau a’r cynlluniau marcio dros dro i’r pwyllgor, rhaid cynnwys hefyd sylwadau’r adolygwr, a manylion yn dangos ble yn y papurau cwestiynau / tasgau y cafodd cynnwys y fanyleb a meini prawf asesu’r fanyleb eu bodloni.

2.10 Bydd y pwyllgor yn ceisio sicrhau y cynhelir yr her a lefel gofynion y papurau cwestiynau / tasgau a’r cynlluniau marcio o un gyfres i’r nesaf, gan gyfeirio, lle y bo’n briodol, at bapurau cwestiynau / tasgau a chynlluniau marcio’r blynyddoedd blaenorol, os ydynt yn bodoli. Am resymau cyfrinachedd, ni ddylai'r pwyllgor ddisgwyl gweld papurau cwestiynau/tasgau'r flwyddyn flaenorol os na chawsant eu sefyll hyd hynny.

2.11 Lle y ceir mwy nag un fanyleb mewn pwnc o fewn un math o gymhwyster, rhaid i Gadeirydd yr Arholwyr geisio sicrhau bod y papurau cwestiynau/tasgau a osodir yr un mor heriol ar gyfer y manylebau gwahanol.

2.12 Bydd y pwyllgor yn sicrhau bod y papurau cwestiynau/tasgau a'r cynlluniau marcio dros dro yn bodloni gofynion y meini prawf asesu fel y'u pennir yn y fanyleb, a bod eu hansawdd yn gyson uchel.

Fel rhan o'r gwaith hwn, rhaid i'r pwyllgor sicrhau, lle bo'n briodol, bod:

***Cyfarwyddiadau***

i) wedi eu cyflwyno mewn fformat safonol sy'n fodd i wahaniaethu'n hawdd rhyngddynt a'r cwestiynau

ii) wedi'u hysgrifennu yn y fath fodd fel bod yr ymgeiswyr yn gallu gwahaniaethu rhwng cyngor, cyfarwyddiadau a gwybodaeth

iii) yn nodi ble mae angen i ymgeiswyr gynhyrchu deunydd ysgrifenedig estynedig, a lle y bydd y marcio yn ystyried ansawdd eu cyfathrebu ysgrifenedig

iv) yn rhoi manylion unrhyw adnoddau ychwanegol sydd eu hangen, er enghraifft geiriaduron, mapiau neu gyfrifianellau.

***Cwestiynau/tasgau***

v) o fewn y fanyleb

vi) yn gallu cael eu hateb o fewn y cyfnod amser a ganiateir

vii) yn defnyddio iaith sy'n glir, yn fanwl gywir ac yn ddealladwy i'r ymgeiswyr

viii) yn defnyddio deunydd ffynhonnell nad yw'n peri tramgwydd oherwydd deunydd pwnc neu iaith anaddas

ix) heb fod yn unfath mewn blynyddoedd neu arholiadau olynol, ac eithrio lle mae hyn yn gyson â'r model asesu a bennir yn y fanyleb.

***Papurau cwestiynau neu dasgau***

xi) yn dangos y dyraniadau marciau

xii) yn peidio, cyn belled ag sy'n ymarferol, rhoi mantais neu anfantais i grwpiau penodol o ymgeiswyr am resymau heblaw cymhwysedd yn y pwnc

xiii) yn gofyn yr un peth gan ymgeiswyr sy'n dilyn llwybrau gwahanol yn y fanyleb

xiv) yn gwahaniaethu'n effeithiol ar draws yr ystod o gyrhaeddiad a dargedir gan yr asesiad.

### *Cynlluniau marcio*

xv) yn cynnwys cyfarwyddiadau marcio cyffredinol

xvi) yn eglur ac wedi'u cynllunio fel bod modd eu cymhwyso'n rhwydd a chyson

xvii) yn dyrannu marciau sy'n gymesur â gofynion y cwestiynau/tasgau

xviii) yn cynnwys y dyraniad marciau ar gyfer pob cwestiwn / tasg a rhan o gwestiwn / is-dasg, gan fanylu ar hynny os bydd angen

xix) yn cynnwys cyfarwyddiadau marcio ar gyfer y cwestiynau hynny lle y disgwylir atebion ysgrifenedig estynedig ac yr asesir ansawdd cyfathrebu ysgrifenedig yr ymgeiswyr

xx) yn cynnwys arwydd o natur ac amrywiaeth yr atebion, sydd yn briodol i'r pwnc, ac sydd yn debygol o haeddu credyd

xxi) yn nodi'r ymatebion derbyniol i bob cwestiwn / tasg, neu ran o gwestiwn/tasg, gan gynnig manylion sy'n caniatáu marcio mewn modd safonedig

xxii) yn dyrannu credyd am yr hyn y mae ymgeiswyr yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud.

### *Offer neu ddeunyddiau*

xxiii) a fynnir ar gyfer unrhyw brawf neu dasg a osodir gan CBAC ac a asesir yn allanol, gan gynnwys profion ymarferol, wedi'u pennu'n ddigon manwl i'r asesiad gael ei gynnal yn briodol. Ni ddylai gofynion unrhyw brawf/dasg o'r fath osod gofynion afresymol ar ganolfannau.

### *Gwirio'r papurau cwestiynau, tasgau a'r cynlluniau marcio dros dro*

2.13 Mae CBAC yn sicrhau bod y trefniadau priodol ar waith er mwyn gwerthuso'r papurau cwestiynau/tasgau a'r cynlluniau marcio a ailysgrifennwyd yn sylweddol yng nghyfarfod gwreiddiol y pwyllgor gwerthuso papurau cwestiynau.

2.14 Bydd y papurau cwestiynau/tasgau a'r cynlluniau marcio dros dro yn cael eu gwirio gan yr archwiliwr. Bydd y broses yn cynnwys:

i) gwirio drafftiau terfynol y papurau cwestiynau/tasgau, heb gyfeirio at y cynlluniau marcio, i sicrhau bod modd ateb y cwestiynau yn yr amser a ganiateir ac nad oes gwallau na bylchau ynddynt

ii) gweithio drwy'r papurau cwestiynau/tasgau, fel y bo'n briodol

iii) gwirio'r cynlluniau marcio i sicrhau bod y marciau a roddir yn cyfateb yn union i'r rheiny sydd ar y papurau cwestiynau/tasgau

iv) paratoi adroddiad i CBAC.

2.15 Anfonir yr adroddiad at yr uwch arholwr, a fydd yn ei dro yn cymeradwyo unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r papurau cwestiynau / tasgau a'r cynlluniau marcio dros dro.

2.16 Rhaid cyflwyno drafft terfynol y papurau cwestiynau / tasgau a'r cynlluniau marcio dros dro i aelod dynodedig o staff CBAC i'w cymeradwyo'n derfynol. Os bwriedir cynnig yr asesiad allanol trwy gyfrwng y Gymraeg, bydd y drafft Cymraeg terfynol yn cael ei wirio gan arbenigwr cyfrwng Cymraeg a fydd yn cynghori aelod dynodedig o staff CBAC ynglŷn â'i gymeradwyo.

2.17 Os bydd staff CBAC o'r farn na lynwyd at eu polisi, rhaid iddynt gyfeirio'r mater at sylw'r uwch reolwyr priodol. Bydd yr uwch reolwyr yn gweithredu'n bendant a buan i gynnal ansawdd a safonau.

## Adran 3: Safoni marcio: asesu allanol

**Mae'r adran hon yn disgrifio'r prosesau y mae CBAC wedi'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau y caiff papurau arholiad yr ymgeiswyr eu marcio'n gyson ac yn gywir, i safon gytûn.**

**Mae'r adran hon yn berthnasol i farcio traddodiadol a marcio ar-lein. Mae'n ymdrin â'r canlynol:**

***hyfforddi, monitro a goruchwylio arholwyr**

***gwirio gwaith arholwyr**

***camau i'w cymryd os na ddilynir cyfarwyddiadau marcio**

***adolygu perfformiad arholwyr..**

Nid yw'r adran hon yn berthnasol i eitemau a gaiff eu marcio gan gyfrifiadur yn unig, fel cwestiynau prawf gwrthrychol, neu gwestiynau ag ymatebion sy'n benthyg eu hunain i gael eu marcio'n awtomatig gan gyfrifiadur. Mewn achosion o'r fath, dylunnir marcio cyfrifiadurol i sicrhau bod cywirdeb o 100 y cant o'r cychwyn cyntaf. Defnyddir systemau rheoli ansawdd priodol i gadarnhau cywirdeb eitemau a farciwyd gan gyfrifiadur.

### *Rhannu cyfrifoldebau*

3.1 Mae'r personél sy'n ymwneud â safoni'r marcio yn cynnwys swyddog(ion) pwnc a'r arholwyr canlynol: cadeirydd yr arholwyr, uwch arholw(y)r, uwch arholwyr cynorthwyol ac arweinwyr tîm, lle y'u penodwyd, ac arholwyr. Manylir ar eu cyfrifoldebau yn Adran 1.

3.2 Mae uwch arholwr yn gyfrifol am y dyfarniadau proffesiynol sy'n sylfaen i'r broses o safoni ar gyfer un neu fwy o gydrannau/unedau penodedig. Rhaid i swyddog pwnc CBAC fod yn gyfrifol am oruchwylio a llywio'r broses safoni ac am sicrhau bod pob cam yn y broses yn cael ei ddilyn.

### *Marcwyr cyffredinol*

3.3 Gall unigolion nad ydynt o angenrheidrwydd yn arbenigwyr pwnc farcio gwaith ymgeiswyr lle nad oes angen iddynt ddefnyddio lefel uchel o arbenigedd pwnc i ddehongli'r cynllun marcio. Mae unigolion o'r fath, a elwir yn farcwyr cyffredinol, yn cael eu hyfforddi, eu goruchwylio a'u monitro i sicrhau eu bod yn marcio'n gywir ac yn gyson.

3.4 Mae'r gweithdrefnau a ddefnyddir i hyfforddi a monitro marcwyr cyffredinol yr un mor drylwyr â'r rhai a osodir i'r arholwyr. Mae'r gweithdrefnau hyn wedi'u cofnodi'n llawn.

### *Marcio gwaith ymgeiswyr*

3.5 Mae gwaith ymgeiswyr sy'n deillio o unedau/cydrannau a asesir yn allanol yn cael eu marcio gan arholwyr a marcwyr cyffredinol hyfforddedig â phrofiad addas. Byddant yn marcio eitem, a all fod yn:

- i) sgript, sef ymateb cyfan ymgeisydd i asesiad allanol
- ii) nifer o gwestiynau neu dasgau mewn sgript
- iii) un cwestiwn neu dasg mewn sgript
- iv) rhan o gwestiwn neu dasg mewn sgript.

3.6 Fel rheol, bydd arholwyr a marcwyr cyffredinol yn marcio gwaith ymgeiswyr o nifer o wahanol ganolfannau, cyhyd â bod cyfanswm eu baich gwaith yn hylaw. Mae gofyn iddynt ddatgan unrhyw ddiddordeb personol sydd ganddynt mewn canolfan cyn marcio. Fel rheol, ni fyddant yn marcio gwaith ymgeiswyr o unrhyw ganolfan y mae ganddynt ddiddordeb personol ynddi onid ydynt yn marcio eitemau dienw ar-lein. Os yw arholwr neu farciwr cyffredinol yn adnabod gwaith ymgeisydd, cânt eu cynghori i beidio â'i farcio ond yn hytrach, dylent ofyn am arweiniad gan CBAC ynglŷn â pha gamau i'w cymryd. Yn achos unig arholwyr neu farcwyr cyffredinol, os na ellir cymhwyso'r gofyniad hwn, rhaid i CBAC sicrhau bod y marcio yn cael ei archwilio.

3.7 Mae un uwch arholwr yn gyfrifol am bob uned/cydran. Lle bo niferoedd yr ymgeiswyr yn isel, gallai uwch arholwr fod yn gyfrifol am fwy nag un uned / cydran a marcio'r holl waith. Dan amgylchiadau o'r fath, gall yr uwch arholwr droi at rywun arall am ail farn, fel y gall unrhyw arholwr sy'n unig farciwr cydran neu uned. Cadeirydd yr arholwyr sy'n rhoi'r ail farn fel arfer.

3.8 Er mwyn cael marcio dibynadwy, ac i leihau'r tebygolrwydd o amrywiadau, mae CBAC yn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o arholwyr yn marcio. Wrth bennu'r isafswm hwn, mae CBAC yn sicrhau bod llwyth y marcio a neilltuir i'r arholwyr yn rhoi ystyriaeth i:

i) natur yr uned/gydran sy'n cael ei hasesu

ii) yr amser sy'n ofynnol i farcio gwaith ymgeiswyr

iii) profiad yr arholwyr

iv) llwyth y marcio y gallant ymdopi ag ef yn ystod y cyfnod marcio.

Lle penodir uwch arholwyr, uwch arholwyr cynorthwyol ac arweinwyr tîm, mae swm y marcio a ddyrennir i bob un ohonynt yn rhoi ystyriaeth i'w dyletswyddau eraill.

3.9 Lle ceir eitemau cyfrwng Cymraeg, mae dyraniad yr eitemau hyn i arholwyr yn sicrhau y gellir safoni a monitro'r marcio, hyd yn oed pan na fydd yr arholwr sy'n eu goruchwylio yn gallu marcio sgriptiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddyrannu sgriptiau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg i arholwyr cyfrwng Cymraeg.

3.10 Os yw'n amlwg bod nifer yr arholwyr y mae eu hangen yn fwy na'r hyn y gallai uwch arholwr yn rhesymol eu goruchwylio heb gymorth, bydd CBAC yn sefydlu strwythur tîm. Dylai nifer y timau fod cyn lleied â phosibl i sicrhau marcio dibynadwy a chyson. Mae CBAC yn dogfennu'n eglur y berthynas rhwng yr arholwyr sy'n gyfrifol am oruchwylio eraill, yn ogystal â'u swyddogaethau gan sicrhau bod y marcio'n cael ei fonitro a'i reoli'n effeithlon.

### *Aelodaeth tîm a hyfforddiant*

3.11 Rhaid i arholwyr fod â phrofiad perthnasol o'r maes pwnc lle mae'n briodol cael hynny. Fel rheol, mae timau marcio yn rhannu'n gytbwys rhwng arholwyr newydd ac arholwyr sydd â phrofiad marcio blaenorol. Os penodir arweinwyr tîm, byddant fel rheol wedi arholi am o leiaf dwy flynedd yn yr un pwnc neu bwnc cysylltiedig. Dylai'r un gofyniad fod yn gymwys i uwch arholwyr, y manylir am eu cyfrifoldebau yn Adran 1.

3.12 Mae arholwyr newydd yn derbyn hyfforddiant priodol sy'n galluogi iddynt gyflawni eu dyletswyddau. Mae'r hyfforddiant hwn yn dibynnu a ydynt yn:

- i) arholwyr newydd, y mae angen hyfforddiant arnynt ar bob agwedd ar y broses arholi sy'n berthnasol i'w rôl cyn marcio eitemau
- ii) newydd i CBAC ac angen hyfforddiant sy'n benodol i weithdrefnau CBAC
- iii) newydd i'r uned/cydran neu'r fanyleb benodol, ac angen hyfforddiant sy'n benodol i'r uned/cydran neu'r fanyleb honno.

Yn ystod cyfnod marcio cyntaf arholwyr, ac ar ôl hynny os bydd angen, byddant yn cael eu rhoi mewn tîm gydag arholwr hŷn sy'n cynnig cefnogaeth agos iddynt trwy gydol y cyfnod marcio.

### *Marcio personol*

3.13 Mae uwch arholwyr ac, os penodir rhai, uwch arholwyr cynorthwyol ac arweinwyr tîm, yn marcio eitemau eu hunain i gasglu tystiolaeth uniongyrchol am ddehongliad yr ymgeiswyr o'r cwestiynau ac am gymhwysiad y cynllun marcio. Mae uwch arholwyr ac uwch arholwyr cynorthwyol penodedig yn marcio pob eitem ar draws y papur er mwyn magu ymwybyddiaeth o berfformiad yr ymgeiswyr.

### *Y broses safoni*

3.14 Cynlluniwyd y broses safoni i sicrhau bod pob arholwr yn marcio gwaith ymgeiswyr yn gyson ac yn gywir. Mae'n sefydlu safon gyffredin o farcio y dylid ei defnyddio i gynnal ansawdd y marcio yn ystod y cyfnod marcio.

3.15 Disgwylir i bob arholwr fod wedi astudio a marcio yn amodol amrywiaeth o eitemau y cytunwyd arnynt cyn safoni.

3.16 Rhaid i bob arholwr gwblhau yn foddhaol bob agwedd ar y broses safoni sy'n berthnasol i'w cyfrifoldebau; bydd anallu i wneud hynny neu fethu gwneud hynny yn arwain at eu diarddel rhag marcio. Os bydd diarddel, bydd CBAC yn cymryd camau i sicrhau bod uniondeb y broses farcio yn cael ei gynnal.

### *Sicrhau cysondeb wrth gymhwyso'r cynllun marcio*

3.17 Bydd CBAC yn sicrhau bod yr holl arholwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn a chyffredin o ofynion y cynllun marcio (sy'n addas i'w cyfrifoldebau) ac y gallant ei gymhwyso'n ddibynadwy. Cyfrifoldeb yr uwch arholwr yw hyn, a rhaid i'w dyfarniadau proffesiynol ar ddehongli a chymhwyso'r cynllun marcio ar gyfer yr uned/y gydran fod yn derfynol. Os oes nifer fawr o arholwyr ac mae strwythur goruchwylio wedi ei sefydlu, bydd CBAC yn sicrhau y cyd-gysylltir yr holl uwch arholwyr cynorthwyol a'r arweinwyr tîm er mwyn sicrhau cysondeb yn eu harferion.

3.18 Mae'r broses o helpu sicrhau y cymhwysir y cynllun marcio’n gyson yn cynnwys:

i) papur briffio gweinyddol gan swyddog CBAC, sy’n cynnwys cyfeiriad at yr egwyddorion hyn, gweithdrefnau CBAC, amserlenni, dogfennau gweinyddol a’r bobl i gysylltu â nhw

ii) esboniad gan yr uwch arholwr o natur ac arwyddocâd y broses safoni

iii) briffio gan yr uwch arholwr ar bwyntiau perthnasol sy’n codi o arholiadau cyfredol, gan dynnu yn ôl y galw ar bwyntiau perthnasol a wneir ynghylch arholiadau blaenorol yn adroddiadau’r cadeiryddion ac adroddiadau monitro rheoleiddiol

iv) trafodaeth o faterion marcio, gan gynnwys:

- rhoi ystyriaeth lawn i’r cynllun marcio yng nghyd-destun sicrhau dealltwriaeth eglur a chyffredin o’r amrywiaeth o atebion derbyniol a’r marciau sy’n addas ar gyfer pob eitem sy’n cael ei marcio, a safonau marcio cymaradwy ar gyfer cwestiynau dewisol
- ymdrin ag atebion annisgwyl ond derbyniol

v) marcio digon o sgriptiau cyffredin, glân er mwyn:

- darlunio’r ystod o berfformiad mae'r ymgeiswyr yn debygol o'i ddangos yn nyraniad arholwr
- helpu i gyfnerthu dealltwriaeth gyffredin o’r cynllun marcio, gan gynnwys unrhyw feini prawf ar gyfer asesu cyfathrebu ysgrifenedig.

3.19 Os gwneir newidiadau i’r cynllun marcio gwreiddiol, mae'r uwch arholwr yn cytuno ac yn awdurdodi’r cynllun marcio diwygiedig. Swyddog CBAC sy'n gyfrifol am ddarparu’r cynllun marcio diwygiedig a’i gyflwyno i’r holl arholwyr yn ystod, neu o fewn un diwrnod gwaith, i’r safoni. Rhaid i arholwyr beidio â bwrw ymlaen ag unrhyw farcio terfynol tan iddynt gael y fersiwn diwygiedig awdurdodedig hwn. Yn achos arholiadau lle mae nifer yr ymgeiswyr yn fach, hyd yn oed pan geir un arholwr yn unig, mae cynlluniau marcio terfynol manwl yn cael eu paratoi.

### *Samplu cychwynnol er mwyn sicrhau bod y cynllun marcio’n cael ei gymhwyso mewn ffordd gyson*

3.20 Yn syth ar ôl safoni rhaid i arholwyr farcio sampl o eitemau (gan ail-farcio, o bosibl, y rhai a farciwyd yn amodol cyn safoni) i'w wirio gan arholwr hŷn. Fel rheol, bydd y sampl yn cynnwys o leiaf 10 o bob eitem a ddyrennir. Dylai’r sampl hefyd:

i) gwmpasu’r amrediad o berfformiad a gafwyd yn yr eitemau a ddyrannwyd, cyn belled â phosibl

ii) cwmpasu cynifer o fathau gwahanol o ymatebion â phosibl.

Mae CBAC wedi diffinio gweithdrefnau ar gyfer sicrhau bod gwaith marcio’r uwch arholwyr yn gyson.

3.21 Yn dilyn safoni, mae'r arholwyr hŷn yn gwirio'r samplau a farciwyd gan yr arholwyr y maent yn gyfrifol amdanynt, er mwyn sicrhau y cymhwysir y cynlluniau marcio awdurdodedig yn gywir ac yn gyson. Cedwir cofnod o'r marciau a roddir gan y ddau arholwr ac o'r adborth a roddir i'r arholwr gwreiddiol.

3.22 Rhaid i arholwyr beidio â chwblhau marcio nes iddynt gael caniatâd yr arholwyr hŷn perthnasol. Os nad yw'r arholwyr hŷn yn fodlon ar ansawdd marcio arholwr, rhaid iddynt esbonio'r rhesymau wrth yr arholwr perthnasol. Yna dylid anfon sampl arall o eitemau a farciwyd, fel arfer yr un maint, at yr arholwr hŷn i'w wirio. Dim ond os yw'r marcio hwnnw'n foddhaol y caniateir i arholwr barhau. Os na fydd arholwyr yn arfer digon o ofal, cywirdeb neu gysondeb wrth ddefnyddio'r cynllun marcio erbyn hyn, ni chaniateir iddynt farcio a dylid ailddyrannu eu heitemau.

### *Monitro marcio a chymryd camau cywirol*

3.23 Mae'r broses o fonitro a chymryd camau cywirol i sicrhau bod pob arholwr yn marcio'n gyson ac yn gywir yn cael ei chofnodi'n llawn i ddarparu trywydd archwilio.

### *Sgriptiau wedi'u marcio'n draddodiadol*

3.24 Rhaid i arholwr hŷn barhau i fonitro gwaith marcio'r holl arholwyr sydd wedi ei glirio gan eu harholwyr hŷn, ac os bydd angen, rhaid cymryd camau cywirol priodol. Mae monitro yn cynnwys sampl o raddfa, ystod ac amlder digonol i ddangos bod modd rhoi ffydd yn y broses fonitro. Dylai'r arholwr hŷn gofnodi'r marciau o'r broses samplu hon a'u defnyddio i lunio proffil o ansawdd marcio pob arholwr o ran cywirdeb, cysondeb a haelioni/llymder.

3.25 Rhaid adolygu'r holl broses farcio er mwyn penderfynu a ddylid addasu marciau unrhyw arholwyr unigol. Mae'r adolygiad yn cynnwys swyddog pwnc CBAC, uwch arholwyr a, lle penodir hwy, arweinwyr tîm. Y swyddog pwnc fydd â'r cyfrifoldeb terfynol am weithredu unrhyw addasiadau a wneir i farciau arholwyr unigol. Os gwneir addasiadau i farciau arholwyr a fu'n marcio papurau cyfrwng Cymraeg yn ogystal â Saesneg, rhaid newid y marciau ar gyfer sgriptiau yn y ddwy iaith.

3.26 Addasir marciau arholwyr unigol ar ôl cyfeirio at:

i) ddigon o sgriptiau a farciwyd gan yr arholwr unigol i gadarnhau, neu wrthbrofi, unrhyw amheuaeth o newid yng nghywirdeb, cysondeb a haelioni/llymder

ii) sut mae'r marcio gan arholwyr unigol yn cymharu â'r hyn a farciwyd gan yr arholwyr hŷn perthnasol

iii) tystiolaeth ystadegol briodol, lle y bo'n briodol.

3.27 Os yw'r adolygiad yn dangos bod arholwyr wedi bod yn wallus, gwneir addasiadau positif neu negatif o'r maint priodol ar draws yr ystod berthnasol o farciau. Er tegwch i ymgeiswyr, mae CBAC yn sicrhau nad yw addasiadau yn newid trefn restrol marciau a roddwyd gan yr arholwr onid yw'r arholwr wedi bod yn amlwg anghyson.

3.28 Mae'r broses o addasu yn cael ei chofnodi'n llawn i gyfeirio ati yn y dyfodol os bydd angen

### *Eitemau a farciwyd ar-lein*

3.29 Mae marcio pob arholwr yn cael ei fonitro gan arholwr hŷn ac, os oes angen, rhaid cymryd camau cywirol. Mae monitro yn cynnwys sampl o raddfa, ystod ac amlder digonol i sicrhau bod modd rhoi ffydd yn y broses fonitro. Mae marciau a chanlyniadau o’r broses samplu hon yn cael eu cofnodi a’u defnyddio i lunio proffil o ansawdd marcio pob arholwr o ran cywirdeb, cysondeb a haelioni/llymder.

3.30 Mae marcio arholwyr unigol yn cael ei gymharu â marcio arholwr hŷn yn gyson trwy gydol y broses. Lle bo angen, cymerir camau i gywiro anghywirdebau'r arholwyr. Bydd y swyddog pwnc yn cymryd cyfrifoldeb terfynol dros weithredu’r newidiadau a wnaed i farciau arholwyr unigol. Bydd y camau cywirol hyn yn cynnwys:

i) tynnu'r arholwr yn ôl o farcio eitem neu eitemau ac yna ail-farcio’r eitemau hynny a farciwyd eisoes

ii) tynnu'r arholwr yn ôl o’r broses farcio gyfan ac ail-farcio’r holl eitemau a farciwyd hyd yma.

### *Gwirio marcio*

3.31 Rhaid i brosesu’r arholiad gynnwys gwiriadau i sicrhau bod yr holl farciau wedi’u cofnodi a’u trosglwyddo’n gywir, a bod unrhyw addasiadau wedi’u cymhwyso’n gywir a’r marciau wedi’u haddasu’n gywir. Mae pob eitem yn cael ei gwirio er mwyn sicrhau nad oes marcio anghyflawn neu wallau wrth gyfrifo’r cyfansymiau.

3.32 Mae CBAC yn monitro a gwerthuso perfformiad arholwyr ac yn cymryd camau priodol i gynnal safonau yn arholiadau’r presennol a’r dyfodol. Gall hyn gynnwys hyfforddiant pellach.

### *Adolygiad o'r marcio ar gyfer sgriptiau wedi'u marcio'n draddodiadol cyn cyhoeddi'r canlyniadau*

3.33 Gall fod achosion lle ceir peth amheuaeth ynghylch a yw’r marciau a roddwyd i ymgeisydd neu grŵp o ymgeiswyr yn fanwl gywir. Pwrpas yr adolygiad marcio yw sicrhau y nodir yr achosion hynny ac y cymerir camau i gywiro’r sefyllfa os bydd angen gwneud hynny.

3.34 Bydd yr adolygiad marcio yn cynnwys ail-farcio sgriptiau a farciwyd gan arholwyr y mae amheuaeth o hyd yn eu cylch. Gwneir yr un peth yn achos pob cydran a asesir yn allanol wrth ddyfarnu. Gellir cynnwys gwaith ymgeiswyr eraill yn yr adolygiad marcio os yw CBAC a/neu’r uwch arholwr o’r farn bod rhesymau da dros wneud hynny.

3.35 Wedi i arholwyr hŷn ail-farcio gwaith yr ymgeiswyr a nodwyd trwy ddilyn y camau ym mharagraffau 4.34 a 4.35, bydd y marc diwygiedig yn disodli’r marc gwreiddiol ac fe ail-gyfrifir y radd yn awtomatig.

3.36 Ar gyfer arholiadau a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'r gweithdrefnau ar gyfer adolygiad marcio yn caniatáu adolygu, os yw’n briodol, gwaith ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg.

### *Goruchwylio aseiniadau gosod a asesir yn allanol*

3.37 Mae CBAC yn nodi’r amodau y mae'n rhaid eu defnyddio ar gyfer cynnal aseiniadau a osodir yn allanol. Mae'r amodau hyn yn hwyluso gwaith y ganolfan o ran goruchwylio a dilysu gwaith yr ymgeiswyr.

3.38 Mae CBAC yn mynnu bod y canolfannau yn cadw cofnod llawn o natur unrhyw gymorth sylweddol a roddir i ymgeiswyr unigol sydd y tu hwnt i’r hyn a roddir i’r grŵp addysgu yn gyffredinol, ond sydd o fewn y paramedrau a enwir yn y fanyleb.

3.39 Mae CBAC yn mynnu bod y canolfannau yn cadarnhau eu bod yn fodlon mai gwaith yr ymgeisydd ydyw a’i fod wedi ei gyflawni o fewn y paramedrau ynghylch cymorth. Mae gofyn i'r ganolfan gyflwyno datganiad ysgrifenedig bod aseiniad yr ymgeisydd wedi ei gynnal dan yr amodau gofynnol.

### *Cadw tystiolaeth*

3.40 Mae CBAC yn sicrhau bod gwaith yr ymgeiswyr ar gael i gyfeirio ato yn ystod y cyfarfod dyfarnu. Cedwir yr holl waith am gyfnod digonol wedi hynny rhag ofn y ceir ymholiadau adolygu marcio neu apeliadau.

## Adran 4: Safoni marcio a chymedroli: Asesu mewnol neu asesu di-arholiad

**Mae'r adran hon yn disgrifio trefniadau CBAC er mwyn sicrhau bod gwaith ymgeiswyr a asesir yn fewnol/gwaith asesiad di-arholiad yn cael ei farcio'n gyson ac yn gywir, i safon gytûn. Mae'n ymdrin â'r canlynol:**

*** y systemau i osod, dilysu, goruchwylio ac asesu'r asesiad hwn a asesir yn fewnol/gwaith asesiad di-arholiad**

***hyfforddi, monitro a goruchwylio cymedrolwyr**

*** camau i'w cymryd os na ddefnyddir y safonau cytûn neu os na ddilynir gweithdrefnau**

***adolygu perfformiad cymedrolwyr.**

**Trwy gydol yr adran hon, dylid cymryd bod 'canolfan' yn golygu 'canolfan neu gonsortiwm'.**

### *Rhannu cyfrifoldebau*

4.1 Mae'r personél sy'n ymwneud ag asesu a chymedroli asesiadau mewnol/asesiadau di-arholiad yn cynnwys cadeirydd yr arholwyr, uwch gymedrolwr, uwch gymedrolwyr cynorthwyol ac arweinwyr tîm, a lle y penodir hwy, cymedrolwyr a swyddog(ion) pwnc CBAC. Manylir ar eu cyfrifoldebau yn Adran 1.

4.2 Mae CBAC yn penodi uwch gymedrolwr ar gyfer pob uned/cydran a asesir yn fewnol. Mae'r uwch gymedrolwr yn meddu ar brofiad sylweddol a pherthnasol o addysgu ac asesu yn y pwnc dan sylw.

4.3 Mae CBAC yn penodi cymedrolwyr ac, os bydd angen, uwch gymedrolwyr ac arweinwyr tîm sydd â phrofiad perthnasol o addysgu ac asesu. Mae nifer y cymedrolwyr a benodir yn ddigonol i sicrhau y gellir alinio safonau mewn manyleb benodol yn effeithiol o fewn ac ar draws canolfannau yn ôl yr amserlen angenrheidiol. Rhaid i gymedrolwyr, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, ystyried gwaith o nifer o wahanol ganolfannau, cyhyd â bod cyfanswm eu llwyth gwaith yn hylaw, ac ni ddylent gymedroli gwaith ymgeiswyr o unrhyw ganolfan y mae ganddynt ddiddordeb personol ynddi. Mae swyddog pwnc CBAC yn gyfrifol am oruchwylio a llywio'r trefniadau ac am sicrhau bod pob cam yn y broses yn cael ei weithredu.

### *Cyfarwyddiadau, hyfforddiant a chanllawiau i aseswyr mewnol*

Mae CBAC yn darparu cyfarwyddiadau gweinyddol eglur i ganolfannau, gan gynnwys manylion ynglŷn â sut y mae cofnodi, trosglwyddo a gwirio marciau ymgeiswyr unigol.

### *Gosod tasgau a asesir yn fewnol*

4.5 Pan mae CBAC yn gosod tasgau a asesir yn fewnol/asesiadau di-arholiad, mae'r tasgau a'r meini prawf marcio yn derbyn gwiriadau ansawdd priodol er mwyn sicrhau y glynir at egwyddorion perthnasol paragraff 3.12.

4.6 Pan fo'r fanyleb yn caniatáu canolfannau/ymgeiswyr i lunio tasgau, mae CBAC yn gosod paramedrau a chanllawiau ar gyfer gosod tasgau ac yn cyhoeddi meini prawf asesu manwl.

4.7 Pan fo’r fanyleb yn gofyn i ymgeiswyr gynhyrchu deunydd ysgrifenedig estynedig yn Gymraeg neu'n Saesneg, bydd y marciau a ddyfarnwyd yn ystyried ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig fel y diffinnir yn y meini prawf cymhwyster priodol.

4.8 Os cyflwynir manyleb newydd neu un sydd wedi’i diwygio’n sylweddol, a honno’n cynnwys tasgau newydd a asesir yn fewnol, mae CBAC yn cymryd camau i sicrhau bod y tasgau a’r cynlluniau marcio y mae’r canolfannau yn eu dyfeisio o safon briodol ac yn cydymffurfio â gofynion y fanyleb.

### *Goruchwylio asesu mewnol*

4.9 Mae CBAC yn pennu’r amodau ar gyfer cynnal gwaith a asesir yn fewnol/asesiad di-arholiad. Mae'r amodau hyn a bennir yn hwyluso’r broses o oruchwylio a dilysu gwaith yr ymgeiswyr gan athrawon ac aseswyr mewnol. Os yw’r fanyleb, oherwydd natur y pwnc, yn mynnu bod ymgeiswyr o ganolfannau yn cyflawni rhai gweithgareddau a asesir yn fewnol y tu allan i’w hysgol neu goleg, mae CBAC yn mynnu bod digon o waith yn cael ei gyflawni dan oruchwyliaeth uniongyrchol i alluogi’r aseswyr mewnol perthnasol i ddilysu gwaith pob ymgeisydd yn hyderus. Mae CBAC yn sicrhau bod y cymedrolwyr yn gweithredu ei ganllawiau ar gyfer terfynau geiriau.

4.10 Mae CBAC yn nodi i ba raddau y mae’r ymgeiswyr yn cael ailddrafftio eu gwaith cyn iddo gael ei farcio gan yr aseswr mewnol.

### *Dilysu gwaith ymgeiswyr*

4.11 Mae CBAC yn mynnu bod aseswyr mewnol yn cofnodi manylion llawn am natur pob cymorth a roddir i ymgeiswyr unigol sydd y tu hwnt i’r hyn a roddir i’r grŵp addysgu yn gyffredinol, ond sydd o fewn y paramedrau a bennwyd gan y fanyleb. Rhaid cadw cofnod lle mae maint y gefnogaeth a roddir yn amrywio rhwng grwpiau addysgu. Mae gofyn i aseswyr mewnol gymryd i ystyriaeth unrhyw gymorth wrth asesu gwaith ymgeiswyr.

4.12 Mae CBAC yn mynnu bod aseswyr mewnol yn darparu datganiad ysgrifenedig ar gyfer pob ymgeisydd sy’n cadarnhau:

i) bod gwaith yr ymgeisydd wedi ei gyflawni o dan yr amodau a nodir yn y fanyleb

ii) eu bod nhw wedi dilysu gwaith yr ymgeisydd a’u bod nhw'n fodlon mai gwaith yr ymgeisydd perthnasol yn unig yw’r gwaith a gynhyrchir.

4.13 Mae CBAC yn mynnu bod canolfannau yn derbyn datganiad wedi’i lofnodi gan bob ymgeisydd er mwyn dilysu’r gwaith a gynhyrchir ganddo, a asesir yn fewnol, fel ei waith ei hun. Rhaid cofnodi marc sero neu absennol os na all ymgeisydd gadarnhau dilysrwydd y gwaith a gynhyrchwyd i'w asesu'n fewnol a/neu fel asesiad di-arholiad.

4.14 Bydd CBAC yn ymchwilio i unrhyw achosion lle na all canolfan ddilysu gwaith a asesir yn fewnol a gyflwynwyd i’w gymedroli. Os na all canolfan ddilysu gwaith a asesir yn fewnol a gynhyrchwyd gan unrhyw un o’i hymgeiswyr, naill ai o fewn y sampl cymedroli cychwynnol neu’r grŵp addysgu yn gyffredinol, mae’n rhaid i’r gwaith hwnnw gael ei gofnodi fel gwaith sy’n cyfrannu sero marciau at ddyfarniad cyffredinol yr ymgeiswyr dan sylw.

4.15 Mae gan CBAC bolisi eglur yn amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer cofrestriadau gan ymgeiswyr preifat. Os yw manyleb yn cynnwys asesiadau di-arholiad, mae'n ofynnol i ganolfannau ddilysu asesiadau mewnol ymgeiswyr preifat

### *Asesu a chymedroli o fewn canolfannau*

4.16 Mae CBAC yn mynnu bod aseswyr mewnol yn dangos yn glir sut y rhoddwyd marciau mewn perthynas â'r meini prawf a ddiffinnir yn y fanyleb. Rhaid i asesiadau mewnol ddangos lle yr asesir ansawdd cyfathrebu ysgrifenedig, lle bo hynny'n briodol.

4.17 Os yw'r rheoleiddwyr wedi cytuno bod natur y pwnc yn galw am roi credyd am y sgiliau y mae ymgeiswyr yn eu dangos wrth ailddrafftio neu fireinio gwaith, mae aseswyr mewnol yn cael paramedrau pendant sy'n diffinio'r terfynau ar gyfer rhoi eu hadborth i'r ymgeiswyr.

4.18 Mae CBAC yn mynnu bod canolfannau yn cymedroli asesiadau ar draws gwahanol aseswyr a grwpiau addysgu. Mae hyn er mwyn sicrhau, mewn perthynas ag uned/cydran benodol, bod pob ymgeisydd yn y ganolfan wedi'i barnu yn erbyn yr un safonau. Os bydd canolfannau'n derbyn cofrestriadau gan ymgeiswyr preifat, dylai'r ganolfan safoni gwaith yr ymgeiswyr preifat ochr yn ochr â gwaith ymgeiswyr mewnol.

### *Cymedroli asesiadau a gyflwynir gan ganolfannau*

4.19 Mae'r marciau a gyflwynir gan bob canolfan yn cael eu cymedroli gan CBAC yn erbyn y meini prawf asesu a bennwyd, er mwyn sicrhau bod safonau wedi'u halinio o fewn ac ar draws canolfannau.

4.20 Mae CBAC yn addasu'r marciau a gyflwynir gan ganolfannau yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau bod dyfarniadau pob canolfan yn unol â'r safon sy'n ofynnol. Mae CBAC yn gweithredu i gywiro'r sefyllfa lle ceir tystiolaeth bod safonau'n cael eu cymhwyso'n anghyson, neu le bod gwyro oddi wrth ofynion y fanyleb mewn rhyw ffordd arall.

4.21 Mae CBAC yn rhoi manylion i ganolfannau am y gweithdrefnau cymedroli sy'n berthnasol i fanyleb, gan ymhelaethu yn ôl yr angen ar y manylion a geir yn y fanyleb ei hun. Mae'r dogfennau'n cadarnhau hawl CBAC i weithredu yn ôl ei ddoethineb er mwyn alinio safonau. Yn benodol, nodir y trefniadau ar gyfer:

- i) gofyn, yn ôl yr angen, ar adegau priodol yn ystod ac ar ddiwedd y cwrs, am samplau o asesiadau mewnol penodol a'r meini prawf asesu cysylltiedig i ddangos sut y dyfarnwyd credyd
- ii) tynnu samplau o waith gan yr ymgeiswyr, sydd wedi'i safoni'n fewnol, i gwmpasu'r amrediad llawn o unedau, a chynrychioli'n ddigonol yr ystod o gyrhaeddiad yn y ganolfan
- iii) samplu dyfarniadau pob aseswr mewnol lle mae tystiolaeth bod angen gwneud hyn er mwyn sicrhau bod hyder yn y broses asesu fewnol
- iv) galw am samplau ychwanegol neu am yr holl waith perthnasol gan yr holl ymgeiswyr, os bydd angen
- v) sefydlu a oes angen addasu marciau canolfan, gan benderfynu ar natur unrhyw addasiad angenrheidiol a gwneud y newidiadau angenrheidiol
- vi) rhoi manylion i ganolfannau am unrhyw addasiadau sylweddol a wnaed, a'r rhesymau drostynt.

4.22 Bydd CBAC yn addasu marciau canolfan lle bo’r gwahaniaeth rhwng y marciau a gymedrolwyd a'r rhai heb eu cymedroli yn fwy na'r hyn a ystyrir yn rhesymol yn ôl barn academaidd neu lle mae'r meini prawf asesu wedi'i gymhwyso'n anghywir. Mae'r penderfyniadau terfynol yn cael ei seilio ar ystyriaeth lawn o’r sampl o waith ymgeiswyr. Gofynnir am samplau ychwanegol os yw’r samplau cyntaf yn dangos nad yw’r safonau gofynnol yn cael eu cymhwyso ond nad ydynt yn cynnig digon o dystiolaeth i bennu’r camau cywiro priodol y mae angen eu cymryd. Er tegwch i’r ymgeiswyr, mae CBAC yn sicrhau nad yw addasiadau yn newid trefn restrol yr ymgeiswyr yn y ganolfan, onid yw marciau’r ganolfan yn amlwg anghyson.

4.23 Defnyddir gwybodaeth ystadegol, os yw’n gymwys, er mwyn llywio penderfyniad terfynol CBAC ar y marciau a ddyfernir.

### *Dulliau cymedroli*

4.24 Mae CBAC yn defnyddio dulliau sy’n ddibynadwy a dilys ar gyfer y maes pwnc dan sylw. Ar gyfer asesiadau a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'r dulliau cymedroli yn sicrhau y gellir cymedroli gwaith cyfrwng Cymraeg a asesir yn fewnol, yn ddibynadwy a dilys. O ran asesu mewnol sy’n arwain at ganlyniadau ysgrifenedig, mae cymedrolwyr yn archwilio samplau o waith ysgrifenedig yr ymgeiswyr.

4.25 O ran asesu mewnol sy’n arwain at ganlyniadau ysgrifenedig, mae cymedrolwyr yn archwilio samplau o waith ysgrifenedig yr ymgeiswyr. Mae hyn yn cynnwys adolygu samplau o waith gwirioneddol ymgeiswyr lle bynnag y bo’n bosibl, drwy ymweliad neu drwy’r post er enghraifft.

Fel arall, gall CBAC gymedroli ar sail tystiolaeth ar ffurf ffotograffau neu dystiolaeth wedi'i recordio ynghyd â nodiadau aseswyr mewnol sy’n egluro ar ba sail y gwnaed y penderfyniadau asesu. Gellir gwirio cysondeb safonau mewn ffordd arall nad yw’n golygu ymweld â’r ganolfan neu adolygu tystiolaeth glywedol/gweledol os yw hynny’n briodol.

### *Safoni'r cymedrolwyr*

4.26 Mae CBAC yn darparu hyfforddiant a chanllawiau dilynol i gymedrolwyr ym mhob agwedd berthnasol ar yr unedau asesu mewnol a’r gweithdrefnau safoni. Rhaid i bob safonwr gymryd rhan yn yr hyfforddiant. Rhaid i bob cymedrolwr gymryd rhan yn yr hyfforddiant.

4.27 Mae CBAC yn trefnu ar gyfer safoni pob cymedrolwr, er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyffredin o’r gweithdrefnau a’r safonau cyn i’r cymedroli ddechrau. Cyfrifoldeb yr uwch gymedrolwr yw hwn, ac fe fydd yn sicrhau bod safonau’r uned/gydran yn cael eu cynnal a’u bod yn gyson â’r fanyleb a’r meini prawf asesu, a rhaid i’w dyfarniadau proffesiynol ar ddehongli a chymhwyso’r meini prawf marcio ar gyfer yr uned/y gydran fod yn derfynol. Os yw nifer y cymedrolwyr yn ddigon mawr i olygu bod angen strwythur goruchwylio, safonir holl uwch gymedrolwyr cynorthwyol a’r arweinwyr tîm a benodwyd ymlaen llaw er mwyn sicrhau arferion cyson. Mae'r holl safoni yn cynnwys rhoi ystyriaeth i ddetholiad o ddeunydd archifol, lle y bo’n briodol, er mwyn dangos gwaith ymgeiswyr wedi ei asesu mewn perthynas â’r ystod lawn o feini prawf asesu a’r deunydd enghreifftiol, pan fo ar gael.

4.28 Mae pob uwch gymedrolwr a, lle penodir hwy, uwch gymedrolwyr cynorthwyol ac arweinwyr tîm yn cymedroli rhywfaint o asesiadau canolfannau yn bersonol ym mhob cyfres o arholiadau.

4.29 Rhaid i'r safonau a gymhwysir gan bob cymedrolwr gael eu gwirio gan gymedrolwr hŷn, a fydd yn ailasesu gwaith ymgeiswyr mewn sampl benodedig. Ar gyfer asesiadau a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'r modd y dyrennir gwaith ymgeiswyr i bob cymedrolwr yn galluogi cymedrolwyr hŷn i wirio gwaith y cymedrolwyr cyfrwng Cymraeg.

4.30 Mae'n ofynnol i gymedrolwyr hŷn gwblhau adroddiad ar waith pob cymedrolwr. Ni all cymedrolwyr y bernir bod eu safonau yn anfoddhaol barhau â'u cymedroli, a rhaid ail-gymedroli gwaith ymgeiswyr o'u holl ganolfannau. Ni ddylid ailbenodi cymedrolwyr o'r fath heb iddynt gwblhau yn foddhaol rhagor o hyfforddiant.

4.31 Os na ellir, am resymau ymarferol, bostio neu archwilio mewn cyfarfod, waith neu dystiolaeth o waith ymgeiswyr wedi'i gymedroli, rhaid i'r cymedrolwr hŷn ymweld â chanolfan (canolfan a bennir gan y cymedrolwr hŷn neu CBAC fel arfer) gyda'r cymedrolwr o leiaf unwaith i wirio penderfyniadau'r cymedrolwr.

4.32 Darperir cyfarwyddiadau gweinyddol eglur i gymedrolwyr, gan gynnwys manylion sut mae cofnodi, trosglwyddo a gwirio marciau sydd wedi'u cymedroli. Mae cywirdeb y cymedrolwyr wrth gofnodi a throsglwyddo marciau yn cael ei wirio.

### *Ailddefnyddio marciau*

4.33 Os yw ymgeiswyr yn ailsefyll cymwysterau llinol, gellir trosglwyddo marciau eu gwaith wedi'i gymedroli a aseswyd yn fewnol ymlaen tra bo'r fanyleb yn parhau i fod mewn grym.

### *Ymdrin ag ymarfer anfoddhaol*

4.34 Bydd CBAC yn darparu rhagor o arweiniad i ganolfannau sy'n methu bodloni ei ofynion o ran asesu mewnol.

4.35 Mewn sefyllfa lle mae problem sylweddol yn codi – gan gynnwys peidio â chymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi gorfodol – bydd CBAC yn cymeradwyo a monitro trefniadau'r ganolfan ar gyfer asesu a safoni cyhyd â bo rhaid, ac yn rhoi gwybod i'r:

i) rheoleiddwyr

ii) lle mae er budd y cyhoedd i wneud hynny, y cyrff dyfarnu eraill.

4.36 Pan fydd canolfan yn methu â chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi gorfodol, bydd CBAC yn gweithredu i ddiogelu buddiannau ymgeiswyr mewn dyfarniadau yn y dyfodol.

## Adran 5: Dyfarnu, cadw archif a chyhoeddi canlyniadau

**Mae'r adran hon yn disgrifio'r trefniadau y mae'n rhaid eu gweithredu i ymdrin â'r broses ddyfarnu, y broses archifo a chyhoeddi canlyniadau. Mae'n ymdrin â'r canlynol:**

*** sicrhau bod cyfrifoldebau'r rheiny sy'n ymwneud â'r broses wedi'u diffinio'n glir**

*** sicrhau bod aelodaeth y pwyllgor dyfarnu wedi'i diffinio'n glir**

*** sicrhau bod y gweithdrefnau cyn-dyfarnu wedi'u diffinio'n glir**

*** disgrifio'r broses ar gyfer pennu ffiniau gradd**

*** cynnal archif o waith ymgeiswyr ar ffiniau graddau allweddol**

*** cyhoeddi canlyniadau ar ddyddiadau cytûn.**

### *Cyfansoddiad Pwyllgor Dyfarnu*

5.1 Mae'r pwyllgor dyfarnu yn cael ei gadeirio gan gadeirydd yr arholwyr ac mae'n cynnwys yr uwch arholw(y)r ac uwch gymedrolw(y)r. Manylir am eu cyfrifoldebau yn Adran 1. Mewn amgylchiadau eithriadol lle na all arholwr neu gymedrolwr hŷn fod yn bresennol mewn cyfarfod dyfarnu, bydd swyddog y corff dyfarnu yn sicrhau bod arholwr neu gymedrolwr sydd nesaf ato o ran statws ar gyfer y fanyleb dan sylw yn bresennol yn y cyfarfod. Bydd staff CBAC yn cynghori'r pwyllgor a chyfarwyddo'i weithdrefnau. Os bydd angen, gall y pwyllgor gynnwys eraill sy'n meddu ar arbenigedd penodol.

5.2 Os oes mwy nag un fanyleb yn yr un pwnc, neu os yw'r manylebau'n rhannu unedau, neu os yw'r un uned i gael ei hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg, rhaid ffurfio naill ai un pwyllgor dyfarnu yn unig neu gael aelodaeth sy'n gorgyffwrdd (cadeirydd yr arholwyr ac o leiaf un aelod arall) ar draws y pwyllgorau sy'n gyfrifol.

5.3 Cyfrifoldeb penodol aelodau'r pwyllgor sy'n gorgyffwrdd yw ystyried cysondeb o ran yr argymhellion yng ngoleuni safonau cymhwyso mewn manylebau eraill.

5.4 Ar gyfer manylebau â nifer fawr o unedau neu gydrannau, gellir cynnal is-grŵp o'r pwyllgor dyfarnu er mwyn dyfarnu cydran neu uned manyleb. Cyfeirir argymhellion gan yr is-grŵp at y pwyllgor dyfarnu cyfan i'w cymeradwyo. Darperir sampl o waith ymgeiswyr â'r marciau ffiniol arfaethedig i'r pwyllgor dyfarnu gyfeirio atynt.

### *Cyfrifoldeb y pwyllgor dyfarnu*

5.5 Y pwyllgor dyfarnu sy'n gyfrifol am:

i) wirio bod y safonau angenrheidiol yn cael eu cynnal ym mhob cydran/uned ac yn y cymhwyster yn gyffredinol

ii) cynorthwyo cadeirydd yr arholwyr i argymell marciau ffin ar gyfer pob gradd allweddol yn y cymhwyster.

5.6 Amcanion y pwyllgor dyfarnu yw cynnal safonau gradd dros amser, ac i gysoni safonau gradd ar draws cyrff dyfarnu, lle y bo'n briodol, ac ar draws manylebau gwahanol o fewn math o gymhwyster. Ar gyfer dyfarniad cyntaf y fanyleb heb ragflaenydd cytras, prif amcan y pwyllgor dyfarnu yw sefydlu safonau gradd addas wedi'u halinio ar draws y cyrff dyfarnu.

5.7 Mae'n ofynnol i'r pwyllgor dyfarnu wneud argymhellion ffin y mae'n rhaid eu gwneud yng ngoleuni'r canlyniadau pwnc cyfun sydd ar gael.

### *Cyn y dyfarniad*

5.8 Mae CBAC yn sicrhau bod:

i) digon o farciau ar y system er mwyn llywio penderfyniadau graddio'r pwyllgor dyfarnu

ii) ystodau priodol o waith ymgeiswyr (sgriptiau a farciwyd a/neu ddeunydd a aseswyd yn fewnol) ar gael yn y dyfarniad

iii) y sefydliad yn adnabod, ar sail cyfrifon cychwynnol o'r canlyniad, ble y gall problemau o gysondeb a chymaroldeb godi.

5.9 Cynigir ystodau rhagarweiniol o farciau ar y ffiniau graddau allweddol ar gyfer pob cydran/uned.

### *Y dyfarniad*

5.10 Dewisir gwaith ymgeiswyr i'w ystyried gan y pwyllgor dyfarnu, sy'n cwmpasu'r ystod ddisgwyliedig ar gyfer pob ffin gradd allweddol, yn seiliedig ar y data ystadegol a thechnegol sydd ar gael, a thrwy'r ystodau rhagarweiniol o farciau a gynigir.

5.11 Mae CBAC yn darparu gweithdrefnau i'r pwyllgor dyfarnu sy'n cael eu defnyddio i gynnal y dyfarniad.

5.12 Lle y bo'n briodol, defnyddir y canlynol i lywio'r drefn o bennu'r marciau ffin gradd allweddol. Yn benodol, bydd rhai mathau o dystiolaeth yn fwy priodol wrth gynnal safonau cymhwyster dros amser nag wrth bennu safonau mewn cymhwyster newydd:

### *Tystiolaeth ansoddol*

i) copïau o'r papurau cwestiynau/tasgau a'r cynlluniau marcio terfynol

ii) adroddiadau'r uwch arholwyr/cymedrolwyr am sut cafodd yr asesiad ei weithredu

iii) samplau o waith yr ymgeiswyr cyfredol a ddosbarthwyd yn gyfartal dros ystodau ffiniau allweddol ar gyfer pob cydran, gyda digon ohonynt yn cynrychioli pob marc i gynnig sail gadarn ar gyfer ffurfio barn, i'r graddau y mae nifer yr ymgeiswyr a natur y gwaith yn caniatáu. Dylid dethol y deunydd o amrywiaeth o ganolfannau a/neu gonsortia lle mae gwaith wedi ei farcio/cymedroli gan arholwyr/cymedrolwyr y gwyddid fod eu gwaith yn ddibynadwy

iv) sgriptiau archifol ac enghreifftiau o waith a aseswyd yn fewnol (gan gynnwys tystiolaeth ffotograffig neu fideo mewn meysydd pwnc priodol) sy'n enghreifftio ffiniau'r graddau ar gyfer dyfarniadau blaenorol ynghyd â phapurau cwestiynau a chynlluniau marcio perthnasol

v) yn achos manyleb newydd, gellid ystyried deunydd perthnasol y tybir sydd o safon gywerth o arholiadau eraill yn y pwnc neu mewn pynciau perthnasol eraill

***Os ydynt ar gael***

i) unrhyw ddisgrifiadau perfformiad sydd wedi eu cyhoeddi, disgrifiadau gradd a deunyddiau enghreifftiol

ii) unrhyw ddeunyddiau cefnogol eraill (er enghraifft canllawiau marcio ar gyfer cydrannau y mae natur eu tystiolaeth yn fyrhoedlog).

***Tystiolaeth feintiol***

iii) disgwyliadau lefel y pwnc, pan fyddant ar gael

iv) gwybodaeth am berfformiad yr ymgeiswyr yn o leiaf dwy gyfres gywerth flaenorol, lle bo hynny ar gael

v) manylion am newidiadau ym mhatrwm cofrestriadau, y dewis opsiynau, a chyrhaeddiad blaenorol, lle bo hynny ar gael

vi) gwybodaeth ynglŷn â'r gydberthynas rhwng data ar lefel cydran/uned a pherfformiad y pwnc cyfan, lle bo hynny ar gael

vii) gwybodaeth dechnegol, gan gynnwys dosraniad marciau yn ymwneud â'r papurau cwestiynau / tasgau a'r cwestiynau unigol ar gyfer y gyfres gyfredol a'r gyfres flaenorol, lle bo hynny ar gael

viii) ystadegau ar lefel eitem

***Cyfarwyddiadau gan y rheoleiddwyr***

ix) unrhyw gyfarwyddyd ysgrifenedig gan y rheoleiddwyr yn nodi tystiolaeth benodol y mae'n rhaid ei defnyddio i hysbysu'r broses o ddyfarnu am gyfres benodol.

x) tystiolaeth berthnasol o adroddiadau monitro a chymaroldeb y rheoleiddwyr

5.13 Bydd dyfarnwyr yn ystyried gwaith yr ymgeiswyr o fewn yr ystod ddisgwyliedig ar gyfer pob ffin allweddol, gan sicrhau bod nifer digonol o enghreifftiau o waith ymgeiswyr yn cael ei archwilio.

5.14 Argymhellir un marc unigol am y ffin gradd gan Gadeirydd yr Arholwyr yn unol â'r weithdrefn berthnasol.

*Mewn dyfarniad sy'n seiliedig ar gadarnhau'r marciau ffin (gan gynnwys defnyddio ystod o dri marc), mae'r weithdrefn fel a ganlyn:*

i) Mae cadeirydd yr arholwyr yn nodi p'un a yw consensws barn y dyfarnwyr fel a ganlyn: bod ffin a argymhellwyd yn gynrychioliadol deg o'r perfformiad ffin gradd. Os felly, caiff y marc hwn ei gadarnhau fel y ffin gradd. (Nid oes angen nodi'r marciau cyfyngol yn yr achos hwn.)

ii) Os na chyrhaeddwyd y consensws i bennu'r ffin ar y ffin a argymhellwyd, caiff yr ystod archwilio ei hymestyn i'r cyfeiriad angenrheidiol a rhaid penderfynu ar ffin a argymhellwyd gan ddilyn y weithdrefn a nodir isod.

*Mewn dyfarniad sy'n seiliedig ar adnabod y marciau ffin, mae'r weithdrefn fel a ganlyn:*

i) Yn gyntaf, wrth weithio i lawr o frig yr ystod, mae cadeirydd yr arholwyr yn nodi'r marc isaf lle mae consensws bod ansawdd y gwaith yn teilyngu'r radd uchaf o'r ddau ar y ffin. Hwn sydd yn rhoi'r marc cyfyngol uchaf.

ii) Nesaf, wrth weithio i fyny o waelod yr ystod, mae cadeirydd yr arholwyr yn nodi'r marc uchaf lle mae consensws nad yw ansawdd y gwaith yn teilyngu'r radd uchaf. Mae'r marc uwchben hyn yn ffurfio'r marc cyfyngol isaf.

iii) Mae cadeirydd yr arholwyr yn pwyso a mesur yr holl dystiolaeth sydd ar gael – ansoddol a meintiol – ac yn argymell un marc i'r ffin gradd, a fydd fel arfer o fewn yr ystod gan gynnwys y ddau farc cyfyngol. Mae'r dewis o'r ffin gradd a argymhellir yn sicrhau bod canlyniadau lefel-pwnc dibynnol yn cyd-fynd â'r dystiolaeth o ddata technegol ac ystadegol perthnasol.

5.15 Ym mhob dyfarniad, pan fo nifer o lwybrau gwahanol i gyrraedd gradd mewn pwnc (gan gynnwys papurau wrth gefn i'w defnyddio mewn achosion o dorri cyfrinachedd), mae cadeirydd yr arholwyr yn sicrhau bod safonau dyfarnu'r graddau a geir o bob llwybr yn gymaradwy. Os yw cydran/uned yn cael ei rhannu rhwng manylebau neu opsiynau gwahanol, mae'r un ffiniau graddau yn cael eu defnyddio.

5.16 Pan fo marciau ffiniol ar gyfer cydran/uned a asesir yn fewnol wedi eu pennu ymlaen llaw, dywedir wrth ddyfarnwyr beth yw'r dosraniad graddau ar gyfer y gydran/uned – ynghyd â data am ddosraniadau blaenorol ac unrhyw newidiadau ym mhatrwm yr ymgeiswyr.

5.17 Yn achos cydrannau/unedau a aseswyd yn fewnol neu gydrannau/unedau a aseswyd yn allanol lle nad yw'r corff dyfarnu'n pennu'r tasgau, a dim newid yn natur y tasgau a'r meini prawf marcio, gellir trosglwyddo'r marciau ffin allweddol o'r gyfres flaenorol. Yr unig adeg y dylid trosglwyddo marciau ffiniol yw pan fydd yr uwch gymedrolwr yn argymell hynny ar ôl cwblhau'r broses gymedroli, ac os yw swyddog pwnc CBAC yn argymell hynny yng ngoleuni'r dystiolaeth dechnegol ac ystadegol sydd ar gael. Bydd sampl o waith ymgeiswyr presennol ar y marciau ffin a gynigir i'w ddwyn ymlaen ar gael i gyfeirio atynt yn ôl y galw, os bydd angen[1]. Er hynny, dywedir wrth y dyfarnwyr beth yw dosraniad graddau'r gydran/uned.

[1]Nid yw'n orfodol i ddyfarnwyr ystyried gwaith ar y cydrannau hyn ar ffiniau sydd yn cael eu trosglwyddo, boed hynny mewn sefyllfa wyneb yn wyneb neu ar e-ddyfarniad.

5.18 Caiff marciau ffin cydrannau/unedau a aseswyd yn fewnol, neu gydrannau/unedau a aseswyd yn allanol, lle nad yw'r corff dyfarnu'n pennu'r tasgau, nad ydynt wedi'u rhagosod nac yn cael eu trosglwyddo, eu diffinio yn ôl y gweithdrefnau ym mharagraff 5.8–5.14

5.19 Ar gyfer unedau sydd â chwestiynau amlddewis yn unig, mae cadeirydd yr arholwyr a'r uwch arholwr yn derbyn dadansoddiad ar lefel eitem, gan gynnwys cyfeirnodau hwylustod a didoli, a'r ateb cywir i bob eitem. Defnyddir methodoleg ddilys wedi'i dogfennu i gynhyrchu argymhellion ffin gradd, sydd yn y pen draw yn cael eu cymeradwyo gan gadeirydd yr arholwyr.

5.20 Gall fod trefniadau eraill yn achos manylebau neu opsiynau â chofrestriadau bach er mwyn osgoi'r ystumiadau y bydd dosraniadau marciau annodweddiadol yn eu hachosi.

### *Ar ôl y dyfarniad*

5.21 Mae'r swyddog cyfrifol yn archwilio argymhellion cadeirydd yr arholwyr er mwyn sicrhau bod y graddau a ddyfernir yn cynrychioli dilyniant a chydraddoldeb safonau dros amser, rhwng cyrff dyfarnu ac ar draws manylebau, lle y bo hynny'n briodol. Ystyrir y dystiolaeth ganlynol yn yr adolygiad hwn:

i) adroddiadau o'r dyfarniad, gan gynnwys argymhellion cadeirydd yr arholwyr

ii) tystiolaeth o farn broffesiynol y dyfarnwyr ar ansawdd gwaith yr ymgeiswyr o fewn yr ystod a ystyriwyd yn y cyfarfod dyfarnu

iii) y dystiolaeth dechnegol ac ystadegol fwyaf cyflawn sydd ar gael ac unrhyw beth a gynhyrchwyd ar ôl y cyfarfod dyfarnu.

5.22 Os penderfynir bod yn rhaid i'r swyddog cyfrifol ailystyried argymhellion cadeirydd yr arholwyr, bydd cadeirydd yr arholwyr yn rhan o'r broses hon a dylid ymgynghori ag ef cyn i unrhyw newid cael ei wneud yn derfynol, lle y bo hynny'n bosibl.

5.23 Pan argymhellir marc ffin terfynol sydd y tu allan i'r ystod o waith ymgeiswyr a ystyriwyd yn y dyfarniad, ymgynghorir â chadeirydd yr arholwyr a rhaid rhoi gwybod i'r rheoleiddwyr os yw'r rheoliadau'n gofyn am hynny.

5.24 Mae pennu'r ffin gradd derfynol yn gyfrifoldeb i'r swyddog cyfrifol. Os bydd y swyddog cyfrifol yn dewis ffin gradd derfynol nad yw'n cael ei chefnogi gan gadeirydd yr arholwyr, rhaid rhoi gwybod i'r rheoleiddwyr a chyfiawnhau'r penderfyniad a argymhellir ar sail tystiolaeth cyn i'r penderfyniad gael ei wneud yn derfynol.

5.25 Ar ôl derbyn gwybodaeth o'r fath bydd y rheoleiddwyr yn rhoi gwybod i'r swyddog cyfrifol am unrhyw anfodlonrwydd gyda'r cyfiawnhad a'r penderfyniad a argymhellir, gan roi eu rhesymau. Mewn achosion o'r fath, bydd gofyn i'r swyddog cyfrifol ailystyried a rhoi adroddiad pellach i'r rheoleiddwyr am y penderfyniad terfynol.

5.26 Bydd cadeirydd yr arholwyr yn cael gwybod am y rhesymau am unrhyw newidiadau i'r ffiniau gradd sydd wedi eu hargymell cyn gynted ag y bo modd, a chyn cyhoeddi'r canlyniadau.

## *Cadw archif*

5..27 Tra bydd manyleb yn parhau i gael ei defnyddio, bydd CBAC yn cadw archif lawn yn cynnwys gwaith ymgeiswyr ar bob marc terfynol a ddetholwyd i bob ffin gradd allweddol, gan gynnwys pob cyfres am o leiaf y pum cyfres ddiwethaf, gan gynnwys o leiaf dwy gyfres yr haf. Yn ogystal, bydd CBAC yn cadw tystiolaeth gyfatebol o arholiad cyntaf y fanyleb i fod yn ganllaw i waith arholwyr a dyfarnwyr.

5.28 Rhaid i CBAC gyflenwi deunydd yn unol â gofynion y rheoleiddwyr sy'n cynnal eu harchifau eu hunain.

## *Cyhoeddi Canlyniadau*

5.29 Bydd CBAC yn cyhoeddi canlyniadau am bob cyfres o arholiadau ar y dyddiadau a gytunwyd.

5.30 Bydd CBAC yn sicrhau bod pob darn o waith y mae'n bosibl ei gael oddi wrth ymgeiswyr yn cael ei farcio a/neu ei gymedroli cyn cyhoeddi'r canlyniadau. Os digwydd unrhyw anawsterau, bydd CBAC yn rhoi gwybod i'r rheoleiddwyr mewn da bryd beth yw natur yr anhawster a sut y gweithredwyd i'w ddatrys.